Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhaliwyd trwy gyfrwng Zoom
nos Lun, 5 Hydref 2020 am **7:45p.m.**

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Stephen Beach, Gavin Harris, Ken Hawkins, Jabez Oakes, Robert Owen-Ellis a Heather Williams.

92. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr John Wynne Hughes ac Ifan Wyn.

93. DATGAN BUDDIANNAU
Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

94. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL
Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2020 yn gywir.

95. MATERION YN CODI
Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

96. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO
Adroddodd y Clerc fod y penderfyniadau cynllunio a wnaed gan Gyngor Sir Ddinbych ers y cyfarfod blaenorol fel a ganlyn.
02/2020/0337 – Adeilad allanol yng nghefn y maes parcio, 2 Stryd y Castell, Rhuthun – Newid adeilad allanol i ffurfio annedd a gwaith cysylltiedig – Gwrthodwyd
02/2020/0654 - Castle Farm, Ffordd Llanfair, Rhuthun – Manylion y parcio a throi cerbydau a gyflwynwyd yn unol ag amod 3 caniatâd cynllunio cod 02/2018/0075 – Cymeradwywyd
02/2020/0529 – Milfeddygfa'r Wern, Wern Fechan, Rhuthun – Newid defnydd o filfeddygfa i optegydd – Caniatawyd
02/2020/0366 – Y Plu, 52 Stryd y Ffynnon, Ruthin – Addasiadau i'r ystafell pŵl/digwyddiadau ar y llawr gwaelod a storfa llawr cyntaf i ffurfio bwyty, darparu ardal decin ar y llawr cyntaf, estyniad i'r gegin a gwaith cysylltiedig – Caniatawyd
02/2020/0491 - 9 Stryd Clwyd, Rhuthun – Newid defnydd ac addasiadau o siop barbwr (Dosbarth Defnydd A1) i siop pryd ar glud poeth (Dosbarth Defnydd A3) – Tynnwyd yn ôl

97. CEISIADAU CYNLLUNIO
Ystyriodd y Pwyllgor y cais a ganlyn a gyflwynwyd am sylwadau gan Gyngor Sir Ddinbych.
PENDERFYNWYD: *nad oedd gwrthwynebiad i'r ceisiadau isod.*

02/2020/0707 – 9 Tŷ'r Priordy, Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun
Gwaith ar goeden geirios yn Ardal Gadwraeth Rhuthun
02/2020/0714 – Y Dalar, Ffordd Cae Glas, Rhuthun
Gwaith ar dderwen sy'n ddarostyngedig i Orchymyn Diogelu Coed

PENDERFYNWYD: *fod gwrthwynebiad i'r cais isod.*

02/2020/0701 – 4 Cae Castan, Rhuthun
Tynnu un goeden castanwydden sy'n ddarostyngedig i Orchymyn Diogelu Coed
Gwrthwynebu tynnu un goeden sy'n ddarostyngedig i Orchymyn Diogelu Coed gan fod y goeden yn edrych yn iach ac ni chyflwynwyd tystiolaeth o bydredd nac adroddiad gan arbenigwr coed cymwysedig i gyfiawnhau torri'r goeden i lawr.

98. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF
PENDERFYNWYD*: mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 2 Tachwedd 2020 am 7.45pm.*